**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1435
Ein cyf/Our ref JMHSC/11132/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
deisebau@senedd.cymru

28 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1435 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i roi sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i dargedu ar waith**

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau canser, ac mae'n cydnabod mai canser yr ysgyfaint yw prif achos marwolaethau sy'n gysylltiedig â chanser yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu rhaglen sgrinio'r ysgyfaint wedi'i thargedu yn genedlaethol yng Nghymru, ac rwy'n awyddus ein bod yn symud ymlaen tuag at weithredu rhaglen sgrinio ar draws Cymru gyfan cyn gynted ag y bo modd.

Disgwylir i'r peilot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddod i ben ym mis Mawrth 2025, a bydd gwerthusiad terfynol ohono'n cael ei gyhoeddi. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael cyllid i fwrw ymlaen â gwaith cwmpasu manwl i bennu'r model, gweithgaredd a'r gofynion cyllido ar gyfer gweithredu rhaglen sgrinio wedi'i thargedu ar lefel genedlaethol, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gafwyd o'r peilot.

Rwyf wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu cyngor ar weithredu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint erbyn y gwanwyn, a hynny chwe mis yn gynharach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch sut i symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.